**Bwrdd Corfforaeth Coleg Gŵyr Abertawe –**
**aelod sy’n fyfyriwr**

- Ydych chi’n angerddol am eich Coleg ac eisiau iddo fod y gorau yng Nghymru?
- Oes gennych chi yr hyn sydd ei angen i fod yn aelod o Fwrdd menter sy’n werth miliynau o bunnoedd?
- Ydych chi’n hyderus i gyflwyno safbwynt y myfyriwr?
- Allwch chi ymrwymo i gyfrannu amser at rôl heriol a buddiol?
- Ydych chi am ddysgu sgiliau allweddol ac ychwanegu at eich gwybodaeth a’ch profiad?

Gallech chi wneud cais i fod yn aelod sy’n fyfyriwr o Fwrdd Corfforaeth y Coleg, Corff Llywodraethu’r Coleg.

Mae’r rôl yn ddi-dâl ac eithrio treuliau a bydd angen i chi allu ymrwymo oddeutu awr neu ddwy y mis i baratoi ar gyfer cyfarfodydd a’u mynychu (tua 14 cyfarfod dros dri thymor).

Bydd y Myfyriwr-lywodraethwr yn ymuno ag 19 o aelodau eraill y Bwrdd sy’n gwneud y penderfyniadau strategol am y cyfeiriad y mae’r Coleg yn ei gymryd, a goruchwylio cyllid y Coleg. Hoffai’r Bwrdd glywed gan fyfyrwyr a dyma’ch cyfle chi i roi persbectif y myfyriwr, cael dylanwad ar y broses o wneud penderfyniadau, a gwneud yn siŵr bod llais y myfyriwr yn cael ei glywed.

Os oes gennych ddiddordeb, llenwch ffurflen enwebu [cod QR isod] a dewch i drafod yr hyn sy’n rhan o’r rôl gyda Chlerc y Bwrdd, Sharon Barron, ar ddydd Llun 4 Hydref 2021 am 6.00pm trwy Teams.

Dyddiad cau ar gyfer enwebiadau: **Hanner nos 1 Hydref 2021**

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys disgrifiad manylach o’r rôl ac amserlen ar gyfer etholiad os oes mwy nag un enwebai, ar gael trwy e-bostio sharon.barron@gcs.ac.uk